PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG CYMRU

CRYNODEB CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2020-2023



GIG CYMRU NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) 2020-23

Ychwanegu Gwerth Trwy Bartneriaeth, Arloesi a Rhagoriaeth





Os hoffech ragor o gopïau o'r ddogfen hon, gellir lawrlwytho fersiynau Saesneg a Chymraeg o'n gwefan. Os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn roi crynodeb o'r ddogfen hon mewn ieithoedd gwahanol, mewn print mwy neu Braille.

Gellir dod o hyd i fersiwn lawn o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23 ar ein gwefan.

Ffôn: 01443 848585
Gwefan: pcgc.gig.cymru
Twitter: @nwssp
E-bost: Shared.Services@wales.nhs.uk

NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R RHEOLWR GYFARWYDDWR

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) ar gyfer 2020 i 2023. Rydym yn parhau i ddarparu cynllun ariannol cytbwys wrth ymdrechu i adeiladu ar ein perfformiad sefydliadol cryf hyd yma.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau gweinyddol, technegol, proffesiynol o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid a'n partneriaid ar draws GIG Cymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn parhau i wella ansawdd ein gwasanaethau presennol wrth i ni hefyd ddatblygu ystod o wasanaethau yr ydym yn eu darparu i GIG Cymru.

Datblygwyd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig mewn cydweithrediad â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, ac mae'n trafod pwy ydym ni, yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn bwriadu helpu i lunio dyfodol ein gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

Roedd 2019-20 yn flwyddyn gadarnhaol i PCGC. Gwnaethom barhau i sicrhau arbedion ariannol yn ôl i'n partneriaid, ac mae ein staff a'n gwasanaethau ymroddedig wedi cael eu cydnabod am ragoriaeth gwasanaeth trwy achrediad a thrwy gael eu henwebu am, ac ennill, sawl gwobr fawreddog.

PCGC oedd y grym y tu ôl i nifer o ddatrysiadau Unwaith i Gymru yn 2019/20 i helpu i ymateb i'r heriau a wynebir gan GIG Cymru. Dyma rai enghreifftiau:

- Caffael a sefydlu cyfleuster warws yn Imperial Park i gwrdd â'r risgiau sy'n deillio o Brexit heb gytundeb.
- Trosglwyddo staff a chefnogaeth uniongyrchol arall yn llwyddiannus i sicrhau sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- Twf cynyddol y System Cofnodion Meddygol Cleifion sy'n hwyluso storio cofnodion gan ryddhau lle mewn meddygfeydd ar gyfer cyflawni ystod ehangach o wasanaethau a thriniaethau.
- Y paratoadau ar gyfer cyflwyno'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol a'r cynllun indemniad i Feddygon Teulu.

Gan edrych ymlaen at 2020 a thu hwnt, byddwn yn parhau i esblygu fel sefydliad a buddsoddi ein hadnoddau lle y byddant o'r budd mwyaf i'n partneriaid yn y tymor hir. Mae'n teimlo'n amserol felly ein bod wedi adnewyddu ein datganiadau Cenhadaeth a Gweledigaeth presennol i ddangos yn fwy cryno pa wahaniaeth yr ydym yn teimlo y mae PCGC yn ei wneud i GIG Cymru nawr, ac y bydd yn ei wneud ar gyfer y dyfodol: **'Ychwanegu Gwerth Trwy Bartneriaeth, Arloesi a Rhagoriaeth'.**

Yn ystod 2020-21, byddwn ni'n gwneud y canlynol:

- Sicrhau rhagoriaeth trwy wella ein gwasanaethau presennol yn barhaus.
- Gweithredu datblygiadau gwasanaeth arloesol newydd;
- Ymgorffori amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghynlluniau lefel adrannol.
- Cryfhau ein trefniadau 'Cynllunio, Mesur, Adrodd, Adolygu' mewnol i wella ein monitro perfformiad a mesur canlyniadau.

Wrth arwain datblygiad meysydd gwasanaeth newydd allweddol fel Gwasanaethau Golch, trefniadau Banc Cydweithredol y GIG a, Chyflogwr Arweiniol ar gyfer staff proffesiynol iechyd dan hyfforddiant, rydym yn gwybod na allwn dynnu ein llygad oddi ar y gwasanaethau craidd hynny y mae ein cwsmeriaid, staff a chyflenwyr yn ddibynnol arnynt, megis y gyflogres, recriwtio, cyfrifon taladwy a gwasanaethau cyfreithiol.

NEGES GAN Y CADEIRYDD A'R RHEOLWR GYFARWYDDWR

Gyda chefnogaeth ein Pwyllgor, rydym yn cydnabod yr angen i herio ein hunain i fod yn wych ar y pethau sylfaenol, gan barhau i wella ein gwasanaethau sydd eisoes yn effeithiol ac yn effeithlon.

Rydym yn hyderus ein bod wedi sicrhau'r cydbwysedd cywir, ac y bydd y cynllun hwn yn darparu arloesedd a rhagoriaeth trwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, wrth barhau i esblygu fel sefydliad a chymryd yr awenau ar ddatblygiadau gwasanaeth Unwaith i Gymru, lle mae'n gwneud synnwyr busnes da i wneud hynny; gan ddangos gwerth am arian.

Mae'r cynllun 2020-2023 hwn yn adeiladu ar yr hyn a nodwyd gennym yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2019-2020; ymgorffori ein nodau tymor hwy yng nghraidd ein cynlluniau adrannol tra hefyd yn chwarae ein rhan wrth gyfrannu at y blaenoriaethau ar gyfer GIG Cymru, fel y nodir yn Cymru Iachach.

Er y bydd 2020-2023 yn parhau i herio PCGC a'n cwsmeriaid yn GIG Cymru, rydym yn hyderus bod ein cynllun yn adlewyrchu'r ymateb a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen i gwrdd â heriau o'r fath. Rydym yn parhau i ddysgu o'n profiadau a'n llwyddiannau yn y gorffennol ac i gymhwyso ein dealltwriaeth unigryw o wasanaethau ledled Cymru i helpu i weithredu newid trwy fabwysiadu arfer da. Byddwn yn chwarae ein rhan i wella ansawdd gofal i gleifion ledled GIG Cymru.



Margaret Foster,
Cadeirydd Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau



Neil Frow,
Rheolwr Gyfarwyddwr
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Beth yw Cynllun Tymor Canolig Integredig?

Bob blwyddyn, rydym yn nodi ein blaenoriaethau ynghyd â'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella a datblygu ein gwasanaethau, ac awn ati i feddwl am sut y byddwn yn parhau i gefnogi GIG Cymru. Rydym yn disgrifio'r camau a'r blaenoriaethau hyn mewn dogfen gynllunio o'r enw'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Nid ydym yn ysgrifennu cynllun cwbl newydd bob blwyddyn. Yn hytrach, rydym yn adeiladu ar gynllun y flwyddyn flaenorol, gan fynd ati i'w ddiweddaru fel ei fod yn cynnwys blaenoriaethau newydd ac yn adlewyrchu adborth gan ein cwsmeriaid, partneriaid a staff.

Bob blwyddyn, bydd ein Huwch Dîm Rheoli a Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth, yn trafod ac yn cymeradwyo'r Cynllun. Caiff y Cynllun Tymor Canolig Integredig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Ionawr, a chaiff ei adolygu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn rhan o gymeradwyo cynlluniau GIG Cymru yn ei gyfanrwydd.





Crynodeb Gweithredol

Mae PCGC yn rhan ganolog o deulu GIG Cymru. Fel sefydliad a letyir, mae'n gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn atebol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad yn y GIG sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru.

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn bwyllgor sy'n gwneud penderfyniadau sy'n gosod polisi'r Bartneriaeth Cydwasanaethau ar gyfer GIG Cymru. Mae'n cyflawni rôl hanfodol wrth fonitro perfformiad a chefnogi datblygiad strategol PCGC a'i wasanaethau.

Mae gennym nifer o is-bwyllgorau a grwpiau cynghori hefyd, a daw aelodau'r rhain o blith ein partneriaid, rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaethau.
Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithio yn hanfodol i'n taith i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu a'u datblygu'n gynaliadwy, yn llwyddiannus ar gyfer dyfodol GIG Cymru.

Rydym yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'n partneriaid mewn amryw o ffyrdd. Rydym yn datblygu partneriaethau dibynadwy ar draws GIG Cymru fel y gallwn gefnogi newidiadau effeithlonrwydd gan sicrhau ein bod yn hyrwyddo system gynaliadwy sy'n cael ei gyrru gan ddata.
Rydym yn ymrwymedig i feithrin ymagwedd gadarnhaol at wasanaethau cwsmeriaid, lle rydym yn ymdrechu i ragori ar ddisgwyliadau ein cwsmeriaid bob tro a chreu amgylchedd lle mae gwasanaethau cwsmeriaid yn elfen greiddiol o sut rydym yn rheoli ac yn darparu'r gwasanaethau hyn.

Rydym yn gwerthfawrogi ein staff ac yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn yr undebau llafur. Trwy ein Fforwm Partneriaeth Lleol ar y cyd rydym yn mynd i'r afael â rheoli newid i sicrhau ansawdd gwasanaeth a chyfleoedd cyflogaeth.

Gwybodaeth Gyffredinol

2,148
o aelodau o staff

Buddion dylanwad proffesiynol o dros
£100m

yn gweithredu o
24 adeilad

Cyllideb o dros
£400m

Caiff **95%**
o holl wariant GIG Cymru ei brosesu drwy systemau a phrosesau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.


Rydym yn ail-fuddsoddi
arbedion er budd GIG Cymru.

Ein Gwasanaethau

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Accounts Payable Services
- Y Gwasanaeth Atal Twyll
- Tîm Canolog e-Fusnes (Oracle)
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Academi Gyllid GIG Cymru (a letyir)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer Cofrestryddion Meddyg Teulu Arbenigol
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Gwasanaeth Archwilio Meddygol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Gwasanaethau Caffael
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Cynllun Aberthu Cyflog
- Cronfa Risg Cymru
- Cynllun Cefnogi Gwaed Heintiedig Cymru

Gwasanaethau cymorth mewnol:

- Timau Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol



Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23 yn parhau i ganolbwyntio ar sut y gall PCGC helpu i arloesi a darparu rhagoriaeth trwy gynorthwyo ein cwsmeriaid a'n partneriaid. Mae'n cyfleu'r polisïau allweddol sy'n berthnasol i GIG Cymru a'i nod yw eu hymgorffori drwyddi draw, gan gynnwys egwyddorion Cymru Iachach, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Gofal Iechyd yn Seiliedig ar Werth, y symudiad tuag at gynllunio dan arweiniad clwstwr mewn gofal sylfaenol a gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Prif flaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf

Rydym wedi adolygu ein blaenoriaethau strategol ac amcanion pellgyrhaeddol ac wedi diweddaru ein prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu dros y tair blynedd nesaf. Wedi'i ymgorffori yn ein Cynlluniau Adrannol mae gennym gyflawniadau cadarn a realistig sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau Cynllun Tymor Canolig Integredig lleol ein cwsmeriaid a'n partneriaid.


Y pum blaenoriaeth strategol canlynol yw ein map llwybr ar gyfer 2020–23 ac maent yn dangos sut rydym yn llunio ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, a hynny drwy adeiladu ar y gwaith a wnaed yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig blaenorol.



1. Cwsmeriaid a Phartneriaid

Astudiaeth achos:
Astudiaeth achos: Hwb y Gymraeg (Y cynnydd a wnaed gan Hwb y Gymraeg trwy gydol 2019)

Gwella diwylliant agored a thryloyw sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, lle caiff gwasanaethau o ansawdd uchel eu darparu.



Helpu i lunio'r dyfodol drwy gefnogi'r newidiadau sylweddol i wasanaethau ein cwsmeriaid a'n partneriaid, a hynny drwy arwain a hwyluso blaenoriaethau GIG Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ✓ Cefnogi darpariaeth gynaliadwy Gofal Sylfaenol
- ✓ Gweithredu cyfleoedd Unwaith i Gymru wrth ddarparu gwasanaethau
- ✓ Gwella cefnogaeth system a chefnogaeth i gwsmeriaid
- ✓ Rhannu arfer gorau – ehangu
- ✓ Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn mynd o nerth i nerth
- ✓ Cefnogi rhaglenni cyfalaf mawr


Buddsoddiad pellach yn y defnydd o roboteg a dadansoddeg data i droi ein data yn wybodaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gyfer GIG Cymru.

Datblygu gallu QlikView ymhellach ar draws ein holl is-adrannau a datblygu offer dangosfwrdd dangosydd perfformiad allweddol yn ein gwasanaethau caffael.

2. Rhagoriaeth

Astudiaeth achos:
Rhagoriaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

Creu sefydliad sy'n hyrwyddo rhagoriaeth drwy ffocws ar wella gwasanaethau'n barhaus, awtomeiddio a defnyddio technoleg.



Gweithredu dull fydd yn berthnasol ledled y gwasanaeth yn ein gweithgareddau Gwelliant Parhaus, er mwyn cydlynu'r gwaith o safoni, moderneiddio ac awtomeiddio, a hynny drwy ystyried egwyddorion 'Unwaith i Gymru' a defnyddio ein data perfformiad Cymru Gyfan i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella ymhellach.

Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Gweithredol a grwpiau cenedlaethol i sicrhau rhagoriaeth, drwy gefnogi sefydliadau a phrosiectau cenedlaethol fel a ganlyn:

- ✓ Prynu i Dalu
- ✓ Banc Nyrsys Cydweithredol Cymru Gyfan
- ✓ Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr
- ✓ Lleihau gwariant ar gaffael nyrsys trwy asiantaethau
- ✓ Systemau Ariannol a Chaffael
- ✓ Gweithredu rhaglen/ cydnabyddiaeth y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru.

Parhau i fuddsoddi mewn technoleg gan yrru effeithlonrwydd a gwelliannau ansawdd gan gynnwys:

- ✓ Arddel cynaliadwyedd - lleihau ein hôl troed carbon a rhoi lle amlwg i'r amgylchedd wrth wneud penderfyniadau
- ✓ Datrysiadau Gweithlu Digidol
- ✓ Sganio dogfennau deallus
- ✓ Cofnodion Meddygol Cleifion
- ✓ Awtomeiddio Prosesau Robotaidd

Mae gwobrau a chydnabyddiaeth yn rhan bwysig o'n rhagoriaeth, gan eu bod yn helpu i annog ac ysgogi staff, yn ogystal â chynorthwyo enw da a sicrwydd, wrth ailadrodd ein hymrwymiad i fod yn ganolfan ragoriaeth o'r radd flaenaf. Maent hefyd yn dangos yn ffurfiol werth y gwasanaethau a ddarparwn ac yn gyrru ansawdd ein gwasanaethau, gan annog diwylliant o welliant parhaus a sicrhau ansawdd.

3. Ein Staff

Astudiaeth Achos:
Gweithio hyblyg Cyfrifon Taladwy

Meddu ar weithlu iach, gweithgar, cynhyrchiol sydd â sgiliau cymwys i ddiwallu anghenion y gwasanaeth.



Mae angen amgylchedd gwaith hyblyg ar ein staff, sy'n galluogi rhyddid a hyblygrwydd ac sy'n cael gwared ar gyfyngiadau ac sy'n gwella ansawdd a pherfformiad. Byddwn yn parhau i alinio ein hystâd, ein darpariaeth o TGCh a'n polisïau Adnoddau Dynol, er mwyn galluogi gweithio hyblyg ledled y sefydliad i gefnogi ein hadrannau wrth gyflawni dros ein cwsmeriaid a'n partneriaid.

Sicrhau bod gennym y bobl iawn gyda'r sgiliau iawn ar waith ar yr adeg iawn. Yna, byddwn yn buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir yn ein hamgylchedd newidiol. Bydd hyn yn ein helpu i ehangu cynlluniau cadw staff ac olyniaeth, a bydd yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Byddwn yn helpu ein staff i addasu i'r defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol newydd yn rhan o'n taith drawsnewidiol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno a gweithredu Microsoft Office 365 yn 2020.

Byddwn yn gyflogwr deniadol, gan sicrhau bod ein staff yn hapus yn y gweithle drwy wneud y canlynol:

- ✓ Datblygu sgiliau arwain, arloesi a sgiliau pobl; gan ddefnyddio creadigrwydd a syniadau.
- ✓ Parhau i ddatblygu a gwella'r rhaglen gymorth llesiant emosiynol.
- ✓ Parhau i ddefnyddio cynlluniau gweithredu corfforaethol ac adrannol yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolygon staff cenedlaethol diweddaraf.
- ✓ Sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi drwy gydweithio gyda'n Fforwm Partneriaeth Lleol.
- ✓ Buddsoddi mewn datblygiad staff a hyfforddiant, hyrwyddo rheoli talent a nodi llwybrau cynllunio olyniaeth.

Cymorth pellach ar gyfer staff PCGC yn ei gyfanrwydd, gan wella ansawdd eu profiad yn y gwaith.

4. Datblygu Gwasanaeth

Astudiaeth achos:
Datblygu a Gweithredu TRAC Cymraeg (Ffurflen gais at ddefnydd yr adran Recriwtio)

Datblygu ac ehangu'r ystod o wasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir i GIG Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach.



Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio ymhellach ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ac ymwneud â chwsmeriaid presennol er mwyn nodi meysydd gwasanaeth newydd.

Rhannu arfer gorau ac arloesedd trwy ein strwythurau fel Cronfa Risg Cymru a'r Gwasanaeth Atal Twyll gan wella gwytnwch ar draws byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru.

Datblygu ein gwasanaethau o dan chwe thema:

1. Cefnogi darparu Gofal Sylfaenol cynaliadwy,
2. Gwella cymorth gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid,
3. Cyfleoedd Unwaith i Gymru ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth,
4. Rhannu arfer gorau a llywio penderfyniadau,
5. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn mynd o nerth i nerth, a
6. Chefnogi prosiectau cyfalaf a thrawsnewid mawr.

Gweithredu fel hwylusydd ar gyfer GIG Cymru a chefnogi'r gwaith o weithredu Cymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5. Gwerth Am Arian

Astudiaeth achos:
Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol

Datblygu sefydliad cydwasanaeth effeithiol ac effeithlon iawn, sy'n sicrhau arbedion termau real a buddion ansawdd gwasanaeth i'w gwsmeriaid.



Rydym yn sicrhau buddion dylanwad proffesiynol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ac arbedion uniongyrchol i gyrff GIG Cymru.

Cynhyrchu £2 filiwn mewn arbedion yn ystod 2019-20, a ail-fuddsoddwyd mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau.

Sicrhau cyllid cyfalaf cynaliadwy pellach ar gyfer technoleg, systemau ac isadeiledd.

Drwy roi mwy o ffocws ar weithio gyda phartneriaid ac ar sail 'Unwaith i Gymru', nodi synergeddau pellach yn ein gwasanaethau trafodol i gyflawni darbodion maint, dileu dyblygu a lleihau costau gweithredu drwy hynny.


Gwella ansawdd ac effeithlonrwydd ein gwasanaethau i randdeiliaid drwy fuddsoddiad sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- ✓ Ein hymagwedd gorfforaethol at welliant parhaus.
- ✓ Technolegau TG e.e. awtomeiddio prosesau robotaidd.
- ✓ Seilwaith TG e.e. diogelwch seiber.
- ✓ Adolygu ein systemau cymorth i gwsmeriaid h.y. desgiau cymorth.
- ✓ Rhoi Microsoft 365 ar waith.
- ✓ Ein capasiti Caffael ar sail Gwerth.
- ✓ Datrysiad ESR i gefnogi strategaeth cynllunio olyniaeth a rheoli talent GIG Cymru.
- ✓ Arweinyddiaeth barhaus trwy ddatrysiadau gweithlu digidol gan ddarparu effeithlonrwydd ar sail 'Unwaith i Gymru'.

Themâu trawsbynciol allweddol

Rydym wedi dechrau addasu ac ymgorffori dull 'gwirio taith' Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein trefniadau cynllunio. Er mwyn canfod y newidiadau syml rydym eu heisiau er mwyn gwella'r gwasanaethau presennol yn ogystal â chreu datblygiadau gwasanaeth newydd lle byddwn yn arwain y ffordd.

Gwirio taith – Ble ydyn ni nawr?



Bydd ein dull yn ymgorffori:

- **Gwneud newidiadau syml** – nid yw cynllun eleni wedi'i ailysgrifennu; rydym yn adeiladu ar sylfeini cadarn.
- **Arwain y ffordd** – byddwn yn defnyddio astudiaethau achos i ddod â chyflawni ein nodau yn fyw.
- **Bod yn fwy anturus** – rydym wedi adolygu ac adnewyddu ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'n hamcanion adrannol i sicrhau eu bod yn SMART.
- **Yn berchen ar ein huchelgais** – byddwn yn hybu ac yn arwain nifer o fentrau a chynlluniau hanfodol 'Unwaith i Gymru'.
- **Defnyddio Un Llais** – byddwn yn gwneud i bob cyswllt gyfrif trwy adborth cwsmeriaid ac adroddiadau perfformiad cyson ar draws PCGC i'n staff, cwsmeriaid a phartneriaid.

Drwy ganolbwyntio ar y dirwedd bolisïau a'r hyn y mae ein cwsmeriaid a'n partneriaid ei angen, rydym wedi sefydlu chwe thema allweddol y byddwn yn eu cyflawni yn ystod oes y cynllun:

1. Cefnogi darparu Gofal Sylfaenol cynaliadwy
2. Gwella cefnogaeth gwasanaeth a chefnogaeth i gwsmeriaid
3. Cyfleoedd Unwaith i Gymru ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth
4. Rhannu arfer gorau a llywio penderfyniadau
5. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn mynd o nerth i nerth
6. Cefnogi prosiectau cyfalaf a thrawsnewid mawr

Prif Thema 1. Cefnogi darparu Gofal Sylfaenol cynaliadwy

Nod

Byddwn yn helpu i greu'r amgylchedd ar gyfer Cymru Iachach i gefnogi system gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol fodern yn rhagweithiol.

Newidiadau syml

Defnyddio'r un model Cyflogwr Arweiniol ar gyfer meddygon teulu. Cynorthwyo wrth hyrwyddo'r cynllun hyfforddi meddygon teulu trwy fynychu amrywiol gynadleddau a digwyddiadau mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Bod yn anturus

Ehangu'r warws data Optometreg i alluogi defnyddio gwasanaethau gwyliadwriaeth (Dilysu ar ôl Talu) ac i ddarparu data i randdeiliaid GIG Cymru i lywio cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Arwain y Ffordd

Ehangu trefniant Cyflogwr Arweiniol ar gyfer fferyllwyr cyn cofrestru, hyfforddeion deintyddol sylfaenol a hyfforddeion meddygol craidd ac arbenigol dros gyfnod y cynllun.

Key Theme 2. Gwella cymorth gwasanaeth a chymorth i gwsmeriaid

Nod

Byddwn yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n partneriaid yn barhaus, a fydd yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i'w cleifion a staff.

Newidiadau syml

Cynyddu nifer y cyflenwyr rydym yn masnachu â hwy ledled Cymru gan ddefnyddio paru dwy ffordd yng Nghyfrifon Taladwy.

Bod yn anturus

Adolygiad Cymru Gyfan o drefniadau dadhalogi mewn perthynas â'r Adran Gwasanaethau Di-haint Canolog , endosgopi a gwasanaethau deintyddol cymunedol a Gofal Sylfaenol.

Arwain y Ffordd

Adeiladu gallu deallusrwydd busnes a dadansoddeg data gan gynnwys datblygu dyfeisiau llaw a dangosfyrddau integredig yn y Gwasanaeth Caffael a'r Gwasanaeth Negesydd Iechyd. Gyda rhagor o ddatblygu ar draws PCGC, gan gynnwys Datrysiadau Gweithlu Digidol ac fel dull sefydliadol ar gyfer adrodd ar berfformiad.

Prif Thema 3. Cyfleoedd Unwaith i Gymru ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth

Nod

Byddwn yn parhau i edrych ar gyfleoedd i GIG Cymru gyflawni darbodion maint, safoni lle y bo'n briodol a darparu prosesau mwy cost-effeithiol a gwasanaethau o ansawdd uchel.

Newidiadau syml

Astudio capasiti gwastraff clinigol yn y farchnad gyfredol er mwyn sefydlu opsiynau ar gyfer diwallu gofynion GIG Cymru yn hyn o beth gan gynnwys buddsoddiad posibl mewn cyfleuster llosgydd mewnol.

Bod yn anturus

Creu Gwasanaeth Archwilio Meddygol newydd i Gymru ar gyfer gwell diogelwch cleifion a chywirdeb wrth ardystio marwolaethau.

Arwain y Ffordd

Rydym yn cefnogi prosiect Cymru Gyfan i gwmpasu ad-drefnu posibl Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth (Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau - TRAMS).

Prif Thema 4. Rhannu arfer gorau a llywio penderfyniadau

Nod

Byddwn yn parhau i ddeall anghenion ein cwsmeriaid a'n partneriaid a rhannu arferion gorau a chyfleoedd ar gyfer gwella gyda hwy.

Newidiadau syml

Cyflwyno peilot Banc Cydweithredol Cymru Gyfan gyda'r bwriad o'i fabwysiadu'n ehangach ledled Cymru er mwyn caniatáu i weithwyr Banc weithio ar draws ffiniau gyda'r nod o ddarparu tâl wythnosol a chael mwy o eglurder ar gyfarwyddebau amser gwaith ac oriau dan gontract i wella gofal a diogelwch cleifion.

Bod yn anturus

Gwell defnydd o ymarferoldeb Hunanwasanaeth ESR Cymru Gyfan sy'n diwallu anghenion esblygol GIG Cymru yn unol â newidiadau i ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys: defnyddio e-ffurflenni i gefnogi holiaduron llogi, terfynu ac ymadael, gwerthuso a datblygiad cyflog a rheoli talent, grymuso defnyddwyr a rheolwyr gwasanaeth; gwell adrodd; prosesau effeithlon a safonedig.

Arwain y Ffordd

Gwella adnodd ymchwilio ariannol Gwasanaeth Atal Twyll Cymru.Rhannu arferion gorau gyda Gwasanaethau Atal Twyll Lleol Cymru Gyfan i godi safonau ymchwilio a chynyddu sancsiynau ledled GIG Cymru.

Prif Thema

5. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn mynd o nerth i nerth

Nod

Byddwn yn parhau i sicrhau ein bod yn cefnogi ein staff, cwsmeriaid a phartneriaid ein hunain yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Newidiadau syml

Cyflawni Achrediad Diogelwch Gwybodaeth ISO27000.

Bod yn anturus

Y Gwasanaeth Atal Twyll yn cyflwyno'r system rheoli cynnwys newydd (Cliw 3) ar draws GIG Cymru, er mwyn gwella adrodd am achosion a chofnodi sancsiynau.

Arwain y Ffordd

Archwilio'r defnydd o roboteg a gwybodeg i ddatblygu warws data PCGC a dangosfwrdd Adrodd Qlikview dilynol.

Prif Thema

6. Cefnogi prosiectau cyfalaf mawr

Nod

Byddwn yn parhau i gefnogi prosiectau cyfalaf mawr drwy ddarparu cyngor proffesiynol a thechnegol i gefnogi GIG Cymru.

Newidiadau syml

Bydd Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd yn datblygu strategaeth arbedion ac adrodd genedlaethol a lleol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni gan alluogi arbedion pellach a chyfleoedd i wella.

Bod yn anturus

Datblygu model warysau a dosbarthu cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru (IP5) i gynyddu effeithlonrwydd cost a phrosesu i'r eithaf i PCGC a GIG Cymru.

Arwain y Ffordd

Gweithredu Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan i ddarparu gwasanaeth effeithlon, cydymffurfiol a theg ar gyfer GIG Cymru.

Cynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull 'Unwaith i Gymru' lle y bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac wrth dynnu sylw at arferion gorau o ofyniad adrodd integredig y Ddeddf, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau amgylcheddol allweddol o dan y pum Ffordd o Weithio.

Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio gyda'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.

Integreiddio

- Datblygu model ymgysylltu ehangach yn y sector cyhoeddus o fewn Datrysiadau Gweithlu Digidol.
- Cefnogi hyfforddi rheolwyr practisiau mewn practisiau meddygon teulu
- Datblygu strategaeth gaffael gydweithredol mewn partneriaeth.
- Cefnogi effeithiolrwydd a chadernid caffael trwy ddewis dyfeisiau meddygol diogel, effeithlon ac effeithiol ar gyfer staff GIG Cymru.

Tymor Hir

- Canolbwyntio ar rannu arferion gorau a risgiau/ heriau cyffredin.
- Ychwanegu gwerth trwy wasanaethau recriwtio diogel, cyflym ac effeithiol yn y sector gofal sylfaenol.
- Cymryd agwedd gyfannol tuag at ddatblygu cynllunio olyniaeth ar draws PCGC, gan barhau i ddefnyddio cynlluniau prentisiaeth.
- Datblygu cynllun graddedigion peirianneg er mwyn cefnogi myfyrwyr Rhwydwaith 75 trwy radd meistr, gan gynyddu sgiliau peirianneg cymwysedig a osodir yn GIG Cymru.
- Adolygu a symleiddio ôl troed Systemau Rheoli Ariannol gan sicrhau trosglwyddo haws a bod yn 'barod i'r cwmwl' ar gyfer y dyfodol.

Cydweithio

- Cydweithio i gynyddu nifer y meddygon teulu dan hyfforddiant trwy'r model cyflogwr arweiniol a meddygon teulu sy'n dychwelyd.
- Recriwtio a chyflogi fferyllwyr cyn cofrestru, hyfforddeion deintyddol sylfaenol a hyfforddeion meddygol craidd ac arbenigol ar gyfer yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yn GIG Cymru.
- Cyflwyno system olrhain argymhellion archwilio i hwyluso methodoleg safonol.



Cyfranogiad

- Ymgysylltu'n aml â'n partneriaid i sicrhau dull 'Unwaith i Gymru' a fwriadwyd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
- Darparu cymorth i'r gweithlu a chymorth ariannol i sefydlu Gweithrediaeth newydd y GIG a diwygio Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddod yn Awdurdod Iechyd Arbennig.
- Adeiladu cyfleoedd i ehangu gwasanaethau archwilio gyda Gweithrediaeth y GIG a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Atal

- Ein Labordy Profi Dyfeisiau Meddygol i ddarparu profion i Hosanau CEN/TR 15831M.
- Sicrhau cynllunio olyniaeth cadarn ar draws y sefydliad.
- Datblygu warws caffael cenedlaethol a model dosbarthu.
- Defnyddio dangosfwrdd adrodd Qlik i sicrhau cywirdeb a mynediad amserol ar gyfer adrodd trwy ddatblygu warws data PCGC o fewn datrysiadau gweithlu digidol.

Perfformiad Ariannol

Ers sefydlu PCGC, rydym wedi cyflawni ein holl dargedau ariannol ac wedi gweithredu o fewn ein cyllideb a ddyrannwyd. Rydym wedi gwneud arbedion uniongyrchol o fwy na £22M. Defnyddiwyd yr arbedion hyn i ail-fuddsoddi yn ein gwasanaethau Unwaith i Gymru, sydd wedi caniatáu i ni amsugno pwysau costau ar gyfer darparu mwy o wasanaethau a dosbarthu £18M i sefydliadau iechyd a Llywodraeth Cymru (£2M yn 2019-20).

Mae'r buddion ariannol sydd ar gael i sefydliadau iechyd o fesurau dylanwad proffesiynol yn sylweddol fwy na'r rhai a amlinellir uchod. Gan weithio gyda sefydliadau, mae dylanwad a chyngor proffesiynol ein gwasanaethau wedi helpu i gynhyrchu arbedion sylweddol ac osgoi costau i GIG Cymru. Mae buddion ariannol dangosol o fewn cyrff iechyd dros yr wyth mlynedd gyntaf yn nesáu at dros £900m. Am 9 mis cyntaf 2019/2020 amcangyfrifir bod buddiannau yn £110m, fel y crynhoir isod:

- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol - Rheoli prydlesi £1.4M
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg - £68M
- Caffael - £30M (priodolwyd £19m i'r tîm Cyrchu Fferylliaeth, Offer a Gorchuddion)
- Adeiladu dros Gymru - £11M

Perfformiad sefydliadol

Ym mis Mehefin 2019, gwnaethom weithredu strategaeth rheoli perfformiad corfforaethol. Rydym wedi gweithio gyda'r isadrannau i adolygu a diweddaru ein dangosyddion perfformiad allweddol ac wedi ailstrwythuro ein proses adolygu chwarterol fewnol i alinio'n agosach ag amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cydnabyddir bod perfformiad adrannol yn hollbwysig ond rydym wedi gweithio i alinio dangosyddion perfformiad allweddol adrannol yn Feysydd Ffocws Allweddol i alluogi golwg gytbwys ac integredig ar draws y sefydliad. Mae ein Meysydd Ffocws Allweddol wedi'u halinio â'n pum Amcan Strategol: Gwerth am Arian, Cwsmeriaid, Rhagoriaeth, Llesiant Staff a Gwella Gwasanaethau.

Rhennir adroddiadau perfformiad unigol gyda byrddau iechyd bob chwarter, gan fanylu ar ddata perfformiad mewn perthynas â nifer o wasanaethau a ddarparwn. Datblygwyd set safonol o adroddiadau ar gyfer pob sefydliad, gan ddarparu data ar ein holl wasanaethau yn dilyn adborth gan gwsmeriaid a phartneriaid ar yr adroddiadau cychwynnol.

Mae'r adroddiadau perfformiad hyn yn rhan allweddol o'n trafodaethau perfformiad gyda Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, ac yn rhan hanfodol o'n hadolygiad gweithredol mewnol o bob gwasanaeth. Mae'r adolygiadau hyn yn cael eu cryfhau trwy gynnwys adolygiad systematig o'r blaenoriaethau allweddol ym mhob Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth. Gellir dod o hyd i'n dangosyddion perfformiad allweddol yn fersiwn llawn y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020-23.

Map Strategol PCGC

Ychwanegu Gwerth Trwy Bartneriaeth, Arloesi a Rhagoriaeth

Ein Gwerthoedd

Gwrando a Dysgu	***Arloesi***	***Cymryd Cyfrifoldeb***	***Gweithio gyda'n Gilydd***
Er mwyn gwella ansawdd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd popeth a wnawn ni, a hynny yn barhaus;	Er mwyn hyrwyddo gwella parhaus	Dros benderfyniadau ac am roi pethau ar waith	Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr

Ein Hamcanion Strategol

Gwerth am Arian

- ✓ Sefydliad hynod effeithlon ac effeithiol.
- ✓ Yn gwneud arbedion mewn termau real a darparu gwasanaeth rhagorol i'w gwsmeriaid

Cwsmeriaid a Phartneriaid

- ✓ Diwylliant agored a thryloyw sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- ✓ Sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

Staff

- ✓ Gweithlu sydd â'r sgiliau priodol ac sy'n gynhyrchiol, awyddus ac iach.

Rhagoriaeth

- ✓ Sefydliad sy'n darparu rhagoriaeth mewn prosesau.
- ✓ Canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn barhaus, awtomeiddio a defnyddio technoleg

Datblygu Gwasanaethau


- ✓ Cynyddu nifer y gwasanaethau o ansawdd uchel a ddarperir i GIG Cymru a sector cyhoeddus Cymru.

Ein Nodau Cyffredinol

1. Byddwn yn hyrwyddo **cysondeb gwasanaeth** ledled Cymru drwy gydweithio â'n partneriaid, a hynny gan barchu anghenion a gofynion lleol.
2. Byddwn yn **ehangu cwmpas ein gwasanaethau, gan groesawu cynaliadwyedd,** yn GIG Cymru ac yn y sector cyhoeddus ehangach ill dau, i sicrhau gwerth am arian, cysondeb o ran ymagwedd ac arloesedd fydd o fudd i boblogaeth Cymru.
3. Byddwn yn parhau i ychwanegu gwerth drwy **safoni, arloesi a moderneiddio** ein modelau darparu gwasanaeth i gyflawni'r amcanion llesiant a buddion gofal iechyd darbodus.
4. Byddwn yn **gyflogwr deniadol** i genhedlaeth heddiw a chenedlaethau'r dyfodol drwy ddenu, hyfforddi a chadw gweithlu gwydn a medrus, sydd wedi cael y cymorth i fod y gorau y gallai fod.
5. Byddwn yn cynnal **cynllun ariannol cytbwys** a hynny wrth barhau i sicrhau effeithlonrwydd ac arbedion uniongyrchol ac anuniongyrchol a pharhau i ailfuddsoddi'r bunt Gymreig yn ôl yng Nghymru
6. Byddwn yn darparu **gwasanaeth gwych i gwsmeriaid** gan sicrhau bod ein gwasanaethau yn cynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a gwerth am arian cymaint â phosibl, a hynny drwy arwain systemau a dull 'Unwaith i Gymru'.
7. Byddwn yn **gweithio mewn partneriaeth** i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, a fydd yn helpu GIG Cymru i ddatrys problemau pwysig, ac yn arwain at Gymru iachach sy'n cefnogi Gofal Sylfaenol cynaliadwy.
8. Byddwn yn cefnogi GIG Cymru i **oresgyn ei heriau** trwy hyrwyddo gwersi a ddysgwyd a rhannu arfer da. Wrth wneud hyn byddwn yn nodi cyfleoedd pellach i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.


Ein Strwythur

Mae fframwaith cyfreithiol a sicrwydd cyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn sylfaen i'n strwythur.



Ein gweithlu a'n cyllidebau– trosolwg

Staff PCGC mewn swydd ar 31 Mawrth 2019



Ein Cyflawniadau yn 2019/20

































GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

@NWSSP

NWSSP

pcgc.gig.cymru

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership